# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 5

DARPARIAETH ATODOL

## PENNOD 6

ACHOSION ARBENNIG

*Personau sy'n rhedeg busnes tirlenwi yn newid*

### 86 Pŵer i wneud darpariaeth bellach ynglŷn â marwolaeth, analluedd ac ansolfedd

(1) Caiff rheoliadau ychwanegu at unrhyw ddarpariaeth a wneir gan ddeddfiad sy'n ymwneud â'r dreth ynglŷn ag achosion pan fo person sydd wedi rhedeg busnes tirlenwi yn marw, yn mynd yn analluog neu'n dod yn destun gweithdrefn ansolfedd, ei diddymu neu ei diwygio fel arall.

(2) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth (ymysg pethau eraill)—

(a) ynglŷn â'r amgylchiadau pan fo person yn mynd yn analluog neu'n dod yn destun gweithdrefn ansolfedd, neu'n peidio â bod yn analluog neu'n destun gweithdrefn ansolfedd;

(b) ynglŷn â dyletswyddau, rhwymedigaethau a hawlogaethau sy'n ymwneud â'r dreth pan fo person wedi marw, wedi mynd yn analluog neu wedi dod yn destun gweithdrefn ansolfedd;

(c) sy'n gymwys pa un a yw unrhyw un arall yn rhedeg busnes tirlenwi person ar ôl i'r person farw, fynd yn analluog neu ddod yn destun gweithdrefn ansolfedd ai peidio.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 86 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 86 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 86.